



Meini prawf Cymeradwyo ac Amodau Cymeradwyo

Awst 2019



Rheoli Fersiynau

Cyhoeddwyd y fersiwn hon (3) o Feini Prawf Cymeradwyo ac Amodau Cymeradwyo Cymwysterau Cymru ym mis Awst 2019. Mae'n disodli fersiwn 2 a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018.

Yn y cyfamser croesewir adborth gan y cyhoedd ar y polisi hwn. Anfonwch eich sylwadau at polisi@cymwysteraucymru.org

Mae'r ddogfen hon ar gael yn [Saesneg](#).

Cynnwys

Egwyddorion Cyffredinol.....	4
Meini Prawf Cymeradwyo	5
Amodau Cymeradwyo.....	6

Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r meini prawf y mae'n rhaid i gymhwyster eu bodloni cyn y gellir ei gymeradwyo a'r Amodau Cymeradwyo y gosodir ar Gymhwyster Cymeradwy.

Mae'r ddogfen hon yn bennaf ar gyfer cyrff dyfarnu a gydnabyddir gan Gymwysterau Cymru. Nod y gofynion hyn yw sicrhau mai dim ond cymwysterau sy'n cwrdd â'n gofynion sy'n cael eu cymeradwyo.

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r canlynol:

- [Y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol ac Edrych Ymlaen](#)
- [Rheolau a gweithdrefnau ar gyfer cymeradwyo](#)
- [Amodau Cydnabod Safonol](#)

Meini Prawf Cymeradwyo

1. Mae Deddf Cymwysterau Cymru 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i ni bennu a chyhoeddi meini prawf i'w cymhwyso gennym wrth benderfynu p'un a ddylid cymeradwyo math o gymhwyster. Dim ond os bydd cymhwyster ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol neu os yw'n bodloni ein polisi ar gymeradwyo cymwysterau nad ydynt yn flaenoriaethol y byddem yn ystyried cymeradwyo cymhwyster, fel y nodir yn ein [Polisi Rhestr Cymwysterau Blaenoriaeth a Chymwysterau Blaenoriaeth Cyfyngedig](#).
2. Mae'r meini prawf ar gyfer cymeradwyo cymwysterau TGAU, UG a safon Uwch diwygiedig gan Cymwysterau Cymru fel a ganlyn:
 - a) Rhaid i'r corff dyfarnu gael ei gydnabod gan Gymwysterau Cymru am ddyfarnu cymwysterau TGAU / TAG;
 - b) rhaid bod tystiolaeth y bydd y cymhwyster yn cydymffurfio â'r Amodau Cydnabod Safonol, Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ac unrhyw Feini Prawf Cymeradwyo sy'n berthnasol;
 - c) rhaid i'r cymhwyster fodloni'r gofynion a nodir o fewn unrhyw ddogfen egwyddorion ar gyfer y cymhwyster neu ddisgwyliadau pwnc-benodol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru (neu a drosglwyddwyd iddo adeg cychwyn y Ddeddf);
 - d) rhaid bod y cymhwyster wedi'i ddatblygu gan ddefnyddio proses y cytunwyd arni'n flaenorol gyda Llywodraeth Cymru (cyn 21 Medi 2015) neu Cymwysterau Cymru;
 - e) rhaid bod y cymhwyster yn gydnaws ag unrhyw ddogfennau polisi perthnasol gan Lywodraeth Cymru cyn 21 Medi 2015 megis canllawiau cymwysterau ac argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer disgyblion 14-19 oed;
 - f) rhaid bod tystiolaeth ddarbwyllol bod cymhwyster wedi'i ddatblygu gyda chyfraniad priodol gan randdeiliaid;
 - g) rhaid bod y corff dyfarnu wedi gweithredu'n unol ag adborth a roddwyd gan Lywodraeth Cymru (cyn 21 Medi 2015) a Cymwysterau Cymru yn ystod camau datblygu a chymeradwyo'r cymhwyster, gan ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau cysylltiedig, lle y'u darparwyd;
 - h) lle nad yw Llywodraeth Cymru na Cymwysterau Cymru wedi llunio dogfen disgwyliadau pwnc-benodol a lle bo corff dyfarnu wedi cael adborth gan reoleiddwyr eraill ar gyfer cymwysterau cyfatebol yn Lloegr, rhaid i gorff dyfarnu ddangos sut y mae wedi ystyried yr adborth hwnnw a nodi i ba raddau y gall fod yn berthnasol yng Nghymru;
 - i) ar gyfer cymwysterau UG a safon Uwch, ac eithrio mewn perthynas â chynnwys safbwynt Cymreig, rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu rhesymeg

dros unrhyw achos sylweddol o wyro o'r cynnwys a geir o fewn cymwysterau UG a safon Uwch yn Lloegr, a

- j) rhaid bod y pwnc yn bwnc sefydledig, neu rhaid i'r corff dyfarnu ddangos bod y pwnc newydd yn ymdrin â pholisi Llywodraeth Cymru o ran y cwricwlwm, neu rhaid bod y cymhwyster yn rhan o'r rhestr cymwysterau y mae Cymwysterau Cymru yn eu cynnwys yn ei bolisi ar gymeradwyo cymwysterau nas rhestrir ar y rhestr cymwysterau blaenoriaethol.

Amodau Cymeradwyo

- 3. Mae'r canlynol yn Amod Cymeradwyo a osodir ar gyrff dyfarnu mewn perthynas â phob Cymhwyster Cymeradwy:

Amodau Cymeradwyo 1: Ni all corff dyfarnu newid y fanyleb ar gyfer cymhwyster o'r fanyleb a Gymeradwywyd (neu a achredwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru cyn 21 Medi 2015) heb gytundeb ymlaen llaw gan Cymwysterau Cymru o ran natur y newid, yr amserlen ar gyfer rhoi'r newid ar waith ac unrhyw gamau gweithredu gofynnol i helpu i roi'r newid ar waith.